Minutes of the **Planning & Amenities Committee** Meeting held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 11th January 2016** at 8.20 pm.

**PRESENT :-** Her Worship The Mayor, Councillor Mrs E Butler
The Deputy Mayor, Councillor D Williams
Councillors M Shultan (Chairman)

| | | |
|---|---|---|
| Mrs S Ashworth | Colin King | J M Martin |
| Mrs L Day | D Llewelyn | C O'Neal |
| Mrs J Forsyth | D Madge | N Pickavance |
| D Hainge | Mrs J Marshall | G O Roberts |
| John Wynn Jones | R K Marshall | |

Officer: Mr Ian Jones, Town Clerk/Financial Officer

**162/15 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Bryn Hughes and H E Williams.

**163/15 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

Councillor Ashworth on Item 166/15 Planning Applications - Ref C15/1281/11/LL and C15/1334/11/HY, Councillor M Shultan on - Ref C15/1306/11/LL

**164/15 PRESENTATION**

Councillors received a presentation by Richard Keatinge on the proposals by Beicio Bangor for a cycling schools link .

The presentation focused on a proposed dutch style cycle route connecting communities with schools and key sites within the city, the link would run from Maesgeirchen through to Penrhosgarnedd. The route would also involve safety space separated from highways a route through the High Street where there was a high footfall, closing of any central reservations on roadways to provide space for cycle track and importantly it would provide children and young people with independence and a healthy way to travel.

Members considered the issues raised in the proposed link and the presentation but could not support the proposal due to the many issues raised which included health and safety hazards on the High Street hazards with traffic one-way systems, no detail of the financial background and the fact that the plan was not at a final stage which clearly needed some additional work.

The Chairman thanked Mr Keating and his colleagues for attending and giving the presentation to the City Council.

**165/15 URGENT BUSINESS**

None

**166/15 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

**C15/1281/11/LL** Application for the demolition of existing house and erection of new house (Revised Proposal) (Resubmission of application C15/1027/11/LL) Coach House, Belmont Road, Bangor. **No objections but as previous comments concern exists about the size of the proposal and the City Council asks that all planning and environmental regulations are complied with.**

Declaration of interest by Councillor S Ashworth, who left the Chamber during the discussion of the above application.

**C15/1306/11/**LL Erection of a second floor extension on top of the existing building. The Bangor Islamic Centre, 61 High Street, Bangor. **No objections.**

Declaration of interest by Councillor M Shultan, who left the Chamber during the discussion of the above application.

The Vice Chairman, Councillor G O Roberts, took over 7ase Chair of the meeting during the discussion of the above application.

**C15/1334/11/HY** Siting of 5 non-illuminated and 3 banners. Storiel, Ffordd Gwynedd, Bangor. **No objections.**
Declaration of interest by Councillor S Ashworth, who left the Chamber during the discussion of the above application.

**C15/1336/11/LL** Change of use of shop (A1) to restaurant (A3) and install a flue for an extraction system to the rear of the building. 147-149 High Street, Bangor. **No objections.**

**C15/1341/11/HY** Erection of 2 internally illuminated fascia signs and one internally illuminated projecting sign. 255 High Street, Bangor. **No objections as long as this proposal conforms to Gwynedd Council's planning principles on the High Street.**

Councillor Mrs J Marshall, as a member of the Gwynedd Council Planning Committee, took no part in the discussions on the above planning applications or voted on them apart from the ones within her own Ward.

**167/15 HIGHWAY MATTERS**

None.

**168/15 LICENSING MATTERS**

None

The meeting finished at 9.10 pm.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Dydd Llun 11fed o Ionawr 2016** am 8.20 y.h.

**PRESENNOL:-** Ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler
Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd D Williams
Cynghorwyr :- M Shultan (Cadeirydd)

| | | |
|---|---|---|
| Mrs S Ashworth | Colin King | J M Martin |
| Mrs L Day | D Llewelyn | C O'Neal |
| Mrs J Forsyth | D Madge | N Pickavance |
| D Hainge | Mrs J Marshall | G O Roberts |
| John Wynn Jones | R K Marshall | |

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

**162/15 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bryn Hughes a H E Williams.

**163/15 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Y Cynghorydd Ashworth ar Eitem 166/15 Ceisiadau Cynllunio – Rhif C15/1281/11/LL ac C15/1334/11/HY, y Cynghorydd M Shultan ar Rhif c15/1306/11/LL.

**164/15 CYFLWYNIAD**

Cafodd y Cynghorwyr gyflwyniad gan Richard Keating ar y cynigion gan Beicio Bangor i gael cyswllt beicio i'r ysgolion.

Roedd y cynnig yn trafod llwybr beicio tebyg i'r rhai a geir yn yr Iseldiroedd, a fyddai'n cysylltu cymunedau ag ysgolion a safleoedd allweddol o fewn y ddinas. Byddai'r cyswllt yn mynd o Faesgeirchen drwodd i Benrhosgarnedd. Byddai'r llwybr seiclo yn golygu hefyd lle diogel ar wahân i'r briffordd, llwybr drwy'r Stryd Fawr lle mae llawer o gerddwyr, cau unrhyw lain ganol ar ffyrdd i wneud lle i ffordd feicio. Byddai hyn i gyd yn rhoi annibyniaeth i blant a phobl ifanc a ffordd iach o deithio.

Bu'r Aelodau'n ystyried y materion a godwyd am y cyswllt arfaethedig ond nid oeddent yn gallu cefnogi'r cynnig. Roedd hyn oherwydd yr amrywiol broblemau a godwyd a oedd cyn cynnwys peryglon iechyd a diogelwch ar y Stryd Fawr, peryglon gyda systemau unffordd y traffig, dim manylion am y cefndir ariannol a'r ffaith nad oedd y cynllun yn un terfynol, roedd hi'n amlwg fod angen gwaith ychwanegol arno.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Keating a'i gydweithwyr am ddod i roi'r cyflwyniad i Gyngor y Ddinas.

**165/15MATERION BRYS**

Dim

**166/15 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD:** Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod:-

**C15/1281/11/LL** Cais i ddymchwel tŷ presennol ynghyd â chodi tŷ newydd yn ei le (Cynllun Diwygiedig) (Ail gyflwyniad o gais C15/1027/11/LL) Coach House, Belmont Road, Bangor. **Dim gwrthwynebiad ond mae yna sylwadau yn bodoli'n barod am faint y cynnig ac mae Cyngor y Ddinas yn gofyn am gydymffurfiaeth â'r holl reoliadau cynllunio ac amgylcheddol.**

Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd S Ashworth a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais uchod.

**C15/1306/11/**LL Codi estyniad ail lawr ar ben yr adeilad presennol. Canolfan Islamaidd Bangor, 61 Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd M Shultan a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais uchod.

Cymerodd yr Is Gadeirydd, y Cynghorydd G O Roberts y gadair am yr eitem uchod.

**C15/1334/11/HY** Gosod 5 arwydd heb eu goleuo a 3 baner. Storiel, Ffordd Gwynedd, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd S Ashworth a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais uchod.

**C15/1336/11/LL** Newid defnydd o siop (A1) I fwyty (A3) a gosod ffliw i sustem echdynnu aer i gefn yr adeilad. 147-149 Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

**C15/1341/11/HY** Codi 2 arwydd ffasgia wedi eu goleuo'n fewnol ac un arwydd crog wedi ei oleuo'n fewnol. 255 Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad ar yr amod fod y cynnig yn cydymffurfio ag egwyddorion cynllunio Cyngor Gwynedd ar y Stryd Fawr.**

Ni chymrodd y Cynghorydd Mrs J Marshall sydd yn eistedd ar Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd, ran yn y drafodaeth ar y ceisiadau uchod na phleidleisio arnynt heblaw am y ceisiadau yn ei Ward ei hun.

**167/15 MATERION PRIFFYRDD**

Dim.

**168/15 MATERION TRWYDDEDU**

Dim.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.10 pm.